Gadewch i ni siarad am arian

Gwybodaeth am Arian

Ar gyfer troseddwyr sydd eisiau dysgu sut i gadw trefn ar eu harian

Mae trin arian yn un o'r pethau anoddaf mae'n rhaid i ni wneud mewn bywyd. Os nag ydym yn cadw trefn ar yr arian sydd gennym, medrwn gael ein hunain i bob math o broblemau. Nod y daflen yw eich helpu i fynd i'r afael gyda rhai o faterion sylfaenol cadw trefn ar eich arian pan fyddwch yn y carchar, yn paratoi ar gyfer eich rhyddhau a pan gewch eich goruchwylio yn y gymuned. Mae hefyd i'ch annog i siarad gyda'ch rheolwr troseddwyr neu'ch swyddog problemau am unrhyw broblemau ariannol. Byddant yn rhoi gwybodaeth fwy manwl i chi a'ch cyfeirio at sefydliadau a all eich helpu ymhellach.

Sut i edrych ar ôl eich arian

Mae'r rhan fwyaf ohonom wedi clywed am bobl yn cuddio eu harian dan fatres ond mae lleoedd gwell a mwy diogel i gadw eich arian.

Y lle gorau i gadw eich arian bob dydd yw mewn banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd, ac ar ôl cael eich rhyddhau medrwch gysylltu ag unrhyw un o'r sefydliadau hyn i agor cyfrif. Pan fyddwch yn dal i fod yn y carchar, dylech holi'ch rheolwr troseddwyr neu swyddog personol sut i agor cyfrif banc sylfaenol neu gyfrif undeb credyd pan fyddwch yn treulio eich dedfryd. Bydd mynediad i'r cyfrif hwn yn gyfyngedig (drwy wasanaethau post) ac ni fyddwch yn cael mynediad i fenthyciad pan fyddwch yn y carchar.

Pam ei bod yn syniad da agor cyfrif banc sylfaenol?

Bydd rhoi eich arian mewn cyfrif yn ei gadw'n ddiogel a gallwch gael eich budd-dal neu gyflog wedi'u talu'n syth i'r cyfrif. Gyda chyfrif banc sylfaenol cewch:

- Cerdyn arian i godi arian (dim ond yr arian sydd gennych yn y cyfrif y medrwch ei godi)

- Cerdyn debyd gyda logo Solo neu Electron arno (medrwch ddefnyddio hyn i wario arian mewn siopau, dros y ffôn neu ar y Rhyngrwyd ond dim ond yr hyn sydd gennych yn eich cyfrif y medrwch ei wario)
- Y cyfle i drefnu taliadau debyd uniongyrchol ac archeb banc sy'n gadael i chi dalu am bethau fel biliau allan o'ch cyfrif yn rheolaidd
- Cyfriflenni rheolaidd, sy'n cofnodi'r hyn yr ydych wedi'i wario a'i gynilo fel y medrwch gadw trac ar le mae'ch arian yn mynd
- Bydd agor cyfrif banc sylfaenol hefyd yn rhoi dull defnyddiol i chi o brofi pwy ydych, a all fod yn ddefnyddiol i chi ar ôl cael eich rhyddhau.



Sut mae agor cyfrif banc?

Bydd y banc yn gofyn i chi lenwi ffurflen gais ac mae'r gyfraith yn dweud fod yn rhaid i chi roi tystiolaeth o bwy ydych. Mae banciau, cymdeithasau adeiladu ac undebau credyd yn derbyn y dogfennau dilynol fel prawf o bwy ydych

- Pasbort
- Trwydded yrru
- Bil cyfleustod
- Dogfennau budd-dal
- Llythyr neu Ddogfen Adnabyddiaeth Bersonol, a lofnodwyd gan lywodraethwr eich carchar, rheolwr hostel neu weithiwr cymdeithasol

Beth yw Undeb Credyd?

Mae undebau credyd yn wych ar gyfer pobl ar incwm isel a phobl gyda hanes credyd gwael. Maent yn sefydliadau ariannol a gaiff eu rhedeg yn y gymuned gan y gymuned ac yn cynnig lle i gynilo eich arian yn rheolaidd hyd yn oed mewn symiau bychan.

Sut medraf gadw trefn ar fy nghyfrif pan fyddaf yn y carchar?

Medrwch benodi perthynas neu ffrind i gadw trefn ar eich cyfrif pan fyddwch i ffwrdd. I wneud hyn bydd yn rhaid i chi lofnodi Llythyr Awdurdod sy'n cadarnhau enw'r person a benodwch i drin eich cyfrif a gwneud yn sicr nad yw pethau fel cardiau plastig newydd a chyfriflenni'n mynd ar goll. Gall eich rheolwr goruchwylio roi cyngor i chi ar baratoi Llythyr Awdurdod.

Beth ddylwn i wneud os oes gennyf ddyledion?

Byddwch yn mynd i ddyled os gwariwch fwy o arian nag sydd gennych. Mae dyledion yn tueddu i dyfu a gall fod canlyniadau difrifol am beidio eu had-dalu. Mae'n bwysig cysylltu'n gyflym gyda'r bobl y mae arnoch arian iddynt, neu ofyn am help gyda hyn, a cheisio dod i gytundeb am sut y byddwch yn talu'r ddyled.

Gofynnwch i'ch rheolwr troseddwyr neu swyddog personol i'ch cyfeirio at sefydliad o fewn y carchar a all roi cyngor i chi ar ddelio gyda dyled.

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cardiau arian, debyd, credyd a stôr?

Cardiau plastig yw 'r ffordd fwyaf poblogaidd erbyn hyn o dalu am bethau a chodi arian o'ch cyfrif. Mae gan bob cerdyn Rif Adnabyddiaeth Personol (PIN), y mae'n rhaid i chi ei ddefnyddio i dalu am nwyddau a gwasanaethau, a phan fyddwch yn codi arian o beiriant arian.

- Mae **cerdyn arian** yn caniatáu i chi godi arian allan o beiriant arian yn unig.
- Medrir defnyddio **cerdyn debyd** i gymryd arian yn uniongyrchol o'ch banc neu gymdeithas adeiladu i dalu am nwyddau, er enghraifft mewn siop neu ar-lein neu i dynnu arian o beiriant arian.
- Mae hefyd gardiau **credyd a stôr** sy'n codi llog ar sail fisol. Mae'n well osgoi defnyddio'r cardiau hyn os cawsoch broblemau yn trin eich arian yn y gorffennol.

Pa grantiau a budd-daliadau y medraf eu hawlio?

Bydd talu unrhyw grant neu fudd-dal yn dibynnu ar delerau'ch dedfryd ac amodau rhyddhau. Gall eich rheolwr troseddwyr neu swyddog personol ddweud wrthych am sefydliadau a all roi cyngor 'un i un' i chi ar fudd-daliadau a sut i hawlio. Gall fod y medrwch hawlio un neu fwy o fudd-daliadau ar unrhyw un amser.

Yswiriant

Fel cyn-droseddwr pan fyddwch yn gwneud cais am yswiriant bydd angen i chi ddatgelu collfarn/au heb ddarfod hyd yn oed os na ofynnir i chi gan ei bod yn drosedd peidio gwneud hynny. Mae'n bwysig iawn eich bod yn gwneud hyn, er y gall hyn wneud i chi deimlo eich bod yn dal i gael eich cosbi am eich trosedd. Os nad ydych yn datgelu unrhyw gollfarn heb ddarfod a bod angen i chi hawlio yswiriant, medrwch gael nad yw'r cwmni yswiriant yn fodlon talu. Peidiwch cael eich temtio i roi 'r yswiriant yn enw rhywun arall, gan y bydd hyn hefyd yn gwneud eich yswiriant yn annilys.

Dyddiad		Arian a Wariaf		Arian a Gaf
Hyd 1	Rhent	400.00		
Hyd 1	Tocyn trên	85.40		
Hyd 2	Archfarchnad	16.82		
Hyd 3	Bill Ffôn	31.69		
Hyd 5	Torri gwallt	10.00		
Hyd 7	Dillad	45.32		
Hyd 9	Archfarchnad	25.50		
Hyd 10	Bil Nwy	30.00		
Hyd 11	Archfarchnad	15.50		
Hyd 13	Archfarchnad	11.50		
Hyd 14	Bwyta Allan	10.50		
Hyd 15			Cyflog Misol	1500.78
Swm		682.23		1500.78

Sut medraf wella fy sgiliau trin arian?

I ganfod sut i gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu, a fedrai gynnwys cyrsiau rheoli arian, siaradwch gyda'ch goruchwyliwr troseddwyr, swyddog personol neu dîm adsefydlu. Gall gwella eich sgiliau darllen, ysgrifennu a rhifau hefyd eich helpu i drin eich arian. Medrwch ddefnyddio'r sgiliau hyn i'ch helpu i gadw trac ar eich gwario ac i weithio allan os ydych yn cael bargen dda ar gynigion arbennig, benthyciadau a chynilon.

Ar gyfer rhai sydd â mynediad i'r rhyngrwyd mae canllaw ar-lein 'Let's Talk Abut Money – Your Money Guide' sy'n trafod yr eitemau y rhoddir sylw iddynt yn y daflen hon a llawer mwy – ewch i http://www.letstalkaboutmoney.org.uk/

niace promoting adult learning

EUROPEAN UNION European Social Fund

NOMS National Offender Management Service
Working together to reduce re-offending